# Trosolwg

## Beth rydym yn ei wneud heddiw

Mae’r penderfyniad hwn ar y Codau a’r canllawiau Niwed Anghyfreithlon yn garreg filltir bwysig, gyda darparwyr ar-lein bellach yn gorfod diogelu eu defnyddwyr yn gyfreithiol rhag niwed anghyfreithlon.

Cyhoeddodd Ofcom gynigion am y camau y dylai darparwyr eu cymryd i fynd i’r afael â niwed anghyfreithlon ar eu gwasanaethau yn fuan ar ôl pasio’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ym mis Hydref 2023. Ers hynny, rydym wedi bod yn ymgynghori’n ofalus ac yn eang, gan wrando ar ddiwydiant, elusennau ac ymgyrchwyr, rhieni a phlant, yn ogystal â chyrff arbenigol ac asiantaethau gorfodi’r gyfraith. Gyda chyhoeddiad heddiw[1], mae’n rhaid i ddarparwyr ar-lein gymryd camau i ddechrau cydymffurfio â’r rheolau newydd hyn. Y canlyniad fydd bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU, yn enwedig plant.

Mae gan ddarparwyr ddyletswydd nawr i asesu’r risg o niwed anghyfreithlon ar eu gwasanaethau, gyda dyddiad cau o 16 Mawrth 2025. Yn amodol ar y Codau’n cwblhau’r broses Seneddol, o 17 Mawrth 2025 ymlaen, bydd angen i ddarparwyr gymryd y mesurau diogelwch a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon. Rydym yn barod i gymryd camau gorfodi os nad yw darparwyr yn gweithredu’n brydlon i fynd i’r afael â’r risgiau sydd ar eu gwasanaethau.

## Beth fydd yn newid

Mae’r Datganiad hwn yn gam hollbwysig at greu bywyd mwy diogel ar-lein i ddefnyddwyr yn y DU. Gyda’i gilydd, bydd y mesurau rydym yn eu disgrifio yma yn gwreiddio diogelwch o’r cam dylunio ac yn gosod safonau newydd a disgwyliadau clir i’r diwydiant. Mae rhai ohonynt yn berthnasol i bob darparwr, ac eraill i ddarparwyr gwasanaethau mwy neu sydd â risg uwch.

Dyma rai o’r newidiadau pwysicaf rydym yn disgwyl i’n Codau a’n canllawiau eu cyflawni:

- **Rhoi rheoli’r risg o niwed wrth galon penderfyniadau.** O heddiw ymlaen, bydd angen i bob safle ac ap sydd o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein gwblhau asesiad risg “addas a digonol”. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt ddeall y risgiau mae niwed anghyfreithlon yn eu hachosi i ddefnyddwyr ar eu gwasanaeth, ac ystyried y ffordd orau o fynd i’r afael â nhw. Er mwyn sicrhau atebolrwydd llym, rhaid i bob darparwr enwi uwch berson sy’n gyfrifol am niwed anghyfreithlon, fel terfysgaeth, casineb a thwyll, ymysg llawer o rai eraill.
- **Gwell gwarchodaeth rhag yr ystod lawn o Niwed Anghyfreithlon, gan gynnwys casineb a therfysgaeth**. Bydd angen i ddarparwyr ddileu cynnwys anghyfreithlon o bob math, a chynnal timau cymedroli cynnwys sydd wedi cael hyfforddiant ac adnoddau priodol, gan arwain at leihau’r niwed sy’n cael ei achosi gan gynnwys anghyfreithlon. Bydd hi’n haws dod

[1] Mae’r ddogfen hon yn cynnwys y canllawiau a’r Codau pwysig canlynol: ein Cofrestr o Risgiau Niwed Anghyfreithlon, Canllawiau Asesu Risg Niwed Anghyfreithlon, Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon drafft ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr i ddefnyddwyr ac ar gyfer gwasanaethau chwilio, Canllawiau Barnu Cynnwys Anghyfreithlon, Canllawiau Gorfodi, Canllawiau Cadw Cofnodion ac Adolygu, a’n Canllawiau Preifat Cyhoeddus. Mae’n cynnwys ein penderfyniadau ar Greulondeb at Anifeiliaid ac Arteithio Pobl, y buom yn ymgynghori yn eu cylch ym mis Awst 2024. Rydym yn nodi manylion yr hyn y mae’r dogfennau hyn yn ei wneud yn ein cyflwyniad.

o hyd i swyddogaethau adrodd a chwynion a'u defnyddio, gyda chamau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i hynny. Bydd angen i ddarparwyr perthnasol hefyd wella'r broses o brofi eu halgorithmau i wneud cynnwys anghyfreithlon yn anoddach ei ledaenu.

- **Amddiffyn plant rhag cam-drin a chamfanteisio ar-lein.** Mae ein Codau'n cynnwys mesurau i fynd i'r afael â meithrin perthynas amhriodol ar-lein. Bydd y rhain yn golygu, yn ddiofyn, na fydd proffiliau na lleoliadau plant – yn ogystal â ffrindiau a chysylltiadau – yn weladwy i ddefnyddwyr eraill, ac ni all cyfrifon heb gysylltiad anfon negeseuon uniongyrchol atynt. Dylai plant hefyd gael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am risgiau rhannu gwybodaeth bersonol, ac ni ddylent ymddangos mewn rhestrau o bobl y gallai defnyddwyr ddymuno eu hychwanegu at eu rhwydwaith. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i rai sy'n meithrin perthynas amhriodol adnabod a chysylltu â phlant agored i niwed. Mae ein Codau'n gosod disgwyliad bod darparwyr risg uchel yn defnyddio adnodd awtomataidd o'r enw cyfateb hash i ganfod Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM). Bydd hyn yn helpu i atal y deunydd niweidiol hwn rhag cael ei gylchredeg, gan amharu ar droseddwyr, a thynnu sylw gwasanaethau i roi gwybod am y troseddau hyn. Mewn ymateb i adborth i'n Hymgynghoriad, rydym wedi ehangu cwmpas ein mesur cyfateb hash CSAM i gynnwys gwasanaethau llai sy'n cadw ffeiliau ac yn storio ffeiliau. Mae risg arbennig o uchel i'r gwasanaethau hyn gael eu defnyddio i ddosbarthu CSAM.
- **Canfod twyll.** O dan y Codau, bydd darparwyr yn sefydlu sianel adrodd benodol i sefydliadau sydd ag arbenigedd ym maes twyll. Bydd hyn yn eu helpu i ganfod gweithgarwch twyllodrus yn gyflym, gan leihau'r trallod ariannol a seicolegol y mae'r niwed hwn yn ei achosi i filiynau o ddefnyddwyr yn y DU bob blwyddyn.
- **Amddiffyn menywod a merched.** Mae niwed ar-lein yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched. Mae ein mesurau'n golygu y bydd defnyddwyr yn gallu rhwystro a thewi pobl eraill sy'n aflonyddu arnynt neu'n eu stelcio. Bydd ein Codau hefyd yn mynnu bod darparwyr yn dileu achosion o gamddefnyddio delweddau personol (neu ddeunydd "pornograffi dial") pan fyddant yn dod yn ymwybodol ohono. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, rydym hefyd wedi darparu canllawiau ar sut gall darparwyr adnabod a dileu cynnwys sy'n cael ei bostio gan droseddwyr cyfundrefnol sy'n gorfodi menywod i buteindra yn erbyn eu hewyllys.
- **Canllawiau i adnabod cynnwys anghyfreithlon**. O ran niwed sy'n effeithio'n benodol ar fenywod a merched, rydym wedi'i gwneud hi'n haws adnabod cynnwys anghyfreithlon fel camddefnyddio delweddau personol, camfanteisio rhywiol a seiberfflachio. Wrth lunio ein canllawiau terfynol, rydym wedi ystyried yn ofalus y risgiau i hawliau defnyddwyr.
- **Sancsiynau a gorfodaeth.** Gallwn gymryd camau gorfodi cyn gynted ag y daw'r dyletswyddau i rym, ac er y byddwn yn cefnogi darparwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau, ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau cynnar yn erbyn achosion o dorri rheolau'n fwriadol neu'n ddifrifol. Mae gennym bwerau i osod cosbau o hyd at £18m neu 10% o refeniw byd-eang cymwys y darparwr (pa un bynnag sydd fwyaf), yn ogystal â cheisio – mewn achosion difrifol iawn – rhwystro gwasanaethau i ddefnyddwyr y DU drwy orchymyn llys.

## Sut mae hyn yn cyd-fynd â'n strategaeth diogelwch ar-lein ehangach

Ers i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith, ein dull gweithredu yw gwreiddio mesurau diogelu hollbwysig yn gyflym (gan gynnwys i'r rhai mwyaf agored i niwed) er mwyn i ni allu gorfodi yn erbyn achosion o dorri rheolau cyn gynted â phosibl. Mae'r set gyntaf hon o Godau a chanllawiau, sydd bellach yn sefydlu'r drefn orfodadwy, yn sylfaen gadarn i adeiladu arni.

Yng ngoleuni'r ymatebion defnyddiol a gawsom i'n hymgynghoriad, rydym yn gweithio at gynhyrchu Ymgynghoriad arall yng Ngwanwyn 2025 ar ehangu'r Codau. Bydd hyn yn cynnwys cynigion yn y meysydd canlynol:

- Rhwystro cyfrifon y rhai y canfyddir eu bod wedi rhannu CSAM;
- Protocolau ymateb i argyfwng ar gyfer argyfyngau (fel y terfysgoedd ym mis Awst 2024);
- Defnyddio cyfateb hash i atal rhannu delweddau personol heb gydsyniad a chynnwys terfysgol; a
- Mynd i'r afael â niwed anghyfreithlon gan gynnwys CSAM drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

Mae diogelwch ar-lein yn hynod ddeinamig, gyda niwed, technoleg ac arferion gorau o ran diogelwch defnyddwyr yn esblygu'n gyflym. Wrth i ni barhau i esblygu a datblygu ein canllawiau a'n canllawiau Codau ymarfer, byddwn yn ystyried blaenoriaethau strategol y Llywodraeth ar gyfer y drefn, ar ôl iddynt gael eu cwblhau'n derfynol.[2]

Ddechrau 2025, wrth i'r dyletswyddau cyntaf ddod yn fyw ac y bydd modd eu gorfodi, bydd Ofcom yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau, gan geisio gwelliannau sylweddol a chanlyniadau gwell i bobl. Byddwn yn gwneud hyn drwy gyfuniad o ddulliau, gan gynnwys:

- **ymgysylltu drwy oruchwylio** gyda'r darparwyr mwyaf ac sydd â'r risg uchaf i sicrhau eu bod yn deall ein disgwyliadau ac yn cydymffurfio'n gyflym, gan bwyso am welliannau lle bo angen;
- **casglu a dadansoddi asesiadau risg** y darparwyr mwyaf ac sydd â'r risg uchaf er mwyn i ni allu ystyried a ydynt yn canfod ac yn lliniaru risgiau niwed anghyfreithlon yn effeithiol;
- **monitro cydymffurfiad a chymryd camau gorfodi** ar draws y sector os bydd darparwyr yn methu cwblhau eu hasesiad risg o niwed anghyfreithlon erbyn 16 Mawrth 2025;
- ymgysylltu'n gynnar â rhai darparwyr risg uchel i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n **mesur cyfateb hash CSAM**, wedi'i ddilyn gan gamau gorfodi lle bo angen; a
- **chamau gorfodi pellach wedi'u targedu** am dorri'r dyletswyddau diogelwch lle byddwn yn dod o hyd i faterion difrifol parhaus sy'n peri risgiau sylweddol i ddefnyddwyr, i bwyso am ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr ac i atal cydymffurfio gwael.

Byddwn hefyd yn defnyddio ein **pwerau tryloywder** i daflu goleuni ar faterion diogelwch, i rannu arferion da, ac i dynnu sylw at le gellir gwneud gwelliannau.[3]

## Gwneud ein dogfennau'n hygyrch

Hoffem ddiolch i'r nifer fawr o randdeiliaid – o gymdeithas sifil, gwasanaethau o bob maint, arbenigwyr, a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus – sydd wedi rhoi o'u hamser i ymgysylltu â'n cynigion.

Rydym yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym wedi archwilio ymatebion rhanddeiliaid ac ymchwil perthnasol yn drylwyr cyn nodi'r rhesymeg dros ein penderfyniadau. Mae

[2] https://www.gov.uk/government/publications/draft-statement-of-strategic-priorities-for-online-safety/draft-statement-of-strategic-priorities-for-online-safety.
[3] Dulliau Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

hon wedi bod yn dasg fawr i'w chyflawni, gyda mwy na 130 o droseddau blaenoriaeth a 100K a mwy o wasanaethau o fewn cwmpas ein gwaith rheoleiddio.

Mae hyd a lled a chymhlethdod y drefn newydd hon yn golygu bod y ddogfen rydym yn ei chyhoeddi heddiw yn berthnasol i lawer o feysydd. Rydym felly wedi cymryd camau i'w gwneud mor hygyrch â phosibl, gan gynnwys:

- Crynodeb o'n penderfyniadau (mae'r cynnwys hwn ar gael yn Saesneg yn unig) a'r gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr a'r gwasanaethau chwilio maent yn berthnasol iddynt.
- Crynodeb o bob pennod (mae'r cynnwys hwn ar gael yn Saesneg yn unig), gan nodi'r hyn mae'n ymwneud ag ef, yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid, a'n penderfyniadau.

Mae ein pennod ragarweiniol yn cynnwys awgrymiadau i gyfeirio rhanddeiliaid at y dogfennau a'r adnoddau a allai fod fwyaf defnyddiol iddynt (e.e. ein gwasanaeth cymorth digidol i wasanaethau bach a chanolig).

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i gwrdd â phartïon sydd â diddordeb ac yn egluro ein penderfyniadau drwy gyfarfodydd, cynadleddau a gweminarau.

# Y camau nesaf

Rhaid i ddarparwyr sydd o fewn cwmpas y dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon yn y Ddeddf nawr gwblhau eu Hasesiadau Risg Niwed Anghyfreithlon erbyn 16 Mawrth 2025. O 17 Mawrth ymlaen, ar yr amod bod y Codau'n cwblhau'r broses Seneddol, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau gymryd y camau a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i ddiogelu defnyddwyr.

Fel y nodir yn ein map[4] wedi'i ddiweddaru, bydd "cam dau" yn dechrau'n gynnar yn 2025. Bydd hyn yn cyflwyno set uchelgeisiol o fesurau diogelu ehangach i blant fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, sy'n golygu na all pobl ifanc dan 18 oed gael gafael ar bornograffi neu ddeunydd am hunanladdiad a hunan-niweidio, a mesurau diogelu i fenywod a merched. Mae'r cerrig milltir yn cynnwys:

- Ionawr 2025: Canllawiau sicrwydd oedran terfynol i gyhoeddwyr cynnwys pornograffig, ac asesiadau mynediad plant;
- Chwefror 2025: Canllawiau Drafft ar fesurau diogelu ehangach i fenywod a merched;
- Ebrill 2025: Codau a Chanllawiau Terfynol ar Amddiffyn Plant, yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Mai; a
- Gwanwyn 2025: Ymgynghoriad ar fesurau Codau Ymarfer ychwanegol.

Bydd "cam tri" yn gosod gofynion ychwanegol i wasanaethau wedi'u categoreiddio, gan ganolbwyntio ar ddod â lefel uwch o ddiogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i rai o'r darparwyr gwasanaethau mwyaf sy'n gweithredu yn y byd ar-lein. Gan fod y trothwyon categoreiddio bellach wedi cael eu cyhoeddi, rydym yn disgwyl cyflawni'r gwaith hwn yn unol â'r amserlen ganlynol:

- Haf 2025: cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio;
- Haf 2025: cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft a therfynol i wasanaethau wedi'u categoreiddio;
- Ddechrau 2026: cyhoeddi cynigion drafft am y dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio. Ar sail ein profiad o gyhoeddiadau rheoleiddio mawr, ein

[4] Dulliau Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

rhagdybiaeth cynllunio ar hyn o bryd yw cyhoeddi’r Datganiad tua blwyddyn ar ôl ymgynghori.